Ardal Mochdre – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid Enwebwyd
Iau, 8 Hydref 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Bethan Jones (Cyfarwyddwraig Corfforaethol Gwella a Datblygiad)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. A. Tansley

1. Rhagarweiniad

Rhoddodd DB gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ adroddiad ar ddatblygiad y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu. Dywedwyd na ellid cynnal 62 o ysgolion yn y dyfodol.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Ar dudalen 10 y ddogfen, mae'n rhestru manteision cyfuno babanod ac iau gan ddweud mai dyma'r ffordd ymlaen yn y dyfodol. Mae'n ymddangos bod y penderfyniad hwn eisoes wedi'i wneud. A fyddech yn derbyn ein barn os nad oes gennym eisiau cyfuno?
A: Byddem yn bendant yn ystyried eich barn. Dygwyd sylw at y manteision a restrwyd gan awdurdodau eraill ac nid yw'n golygu nad yw'r manteision hyn yn bodoli mewn ysgolion yn bresennol.
S: Cyflwynwyd y syniad o gyfuno gan Gyngor Sir Clwyd dros 15 mlynedd yn ôl. Cynhaliwyd astudiaeth ymarferoldeb a chytunwyd na ellid cynnwys y babanod ar safle Cystennin. Pe bai'n mynd yn ei flaen, byddai angen safle newydd.
A: Gellir trafod hyn ymhellach yn y gweithdy.
C: Anfodlon â nifer y lleoedd gwag restrwyd yn Ysgol Mochdre a bod rhieni Mochdre yn dewis ysgolion y tu allan i'r ardal. A ellir gwneud rhywbeth i atal hyn?
A: Na, oherwydd mai dewis rhieni yw'r gyfraith.
C: A oes ysgolion yng Nghonwy sydd dros eu capasiti?
A: Oes ac mae angen trin hyn yn y dyfodol. Mae polisïau yn eu lle sy'n dweud na fydd ysgolion yn cael eu helaethu os ydynt yn cymryd gormod o ddisgyblion o du allan i'r dalgylch.
C: Mae'r ddogfen yn sôn am gyfuno ond dim sôn am ffederaleiddio. A yw hyn yn bosibl?
A: Ydy, mae'n parhau'n ddewis.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Cyfeiriodd at dudalen 10 y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedodd bod y ddwy ysgol yn cyflawni'r anghenion hyn. Nid yw tudalen 10 yn feirniadaeth o'r ysgol a'r modd mae'n gweithredu nawr. Deall nad 'addas i'r pwrpas' nad yw'r un peth yn

addas i bawb ond pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, mai'r rhestr nodweddion hyn fyddai'r rhestr ddelfrydol o bethau i'w cynnwys.

Sesiwn Cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, C= Sylw)

C: A yw plant rhan amser wedi'u cynnwys yng nghyfrifo lleoedd gwag ac arwynebedd llawr meithrin wedi'i gynnwys yn y cyfrifo?
A: Edrychir ar hyn a bydd yr ateb yn cael ei anfon at y pennaeth.
C: Pam fydd nifer disgyblion rhagamcanedig yng Nghystennin yn gostwng yn y dyfodol ?
A: Oherwydd nifer y disgyblion fydd yn gadael yr ysgol dros y 5 mlynedd nesaf a'r nifer fydd yn dod i'r ysgol yn yr un cyfnod. Mwy o ddisgyblion yn gadael nag a fydd yn cofrestru.
S: Mae cynllun Flying Start ym Mochdre yn cynyddu nifer y disgyblion.
A: Bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth gan fod rhagamcanion yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Hefyd derbyn y bydd enciliad o bosibl yn cynyddu nifer y disgyblion yn y dyfodol.
S: Credu bod babanod Mochdre yn cynyddu yn raddol ac yn bwysig.
C: Pam fod y ddogfen yn dweud bod Cystennin yn addas i'w addasu pan na all gynnwys y babanod?
A: Gellir addasu Cystennin ond nid yw hynny'n golygu ar gyfer babanod. Yn syml mae'r ddogfen yn nodi bod lle ar gael.
S: Mae 4 dewis arall: cadw''r cydbwysedd; 2 safle a ffederaleiddio; 2 ysgol yn cyfuno ar safle ysgol sy'n bodoli, cyfuno ar safle newydd.

Esboniodd GT y gweithdy.

3. Adborth Gweithdy

Beth sy'n gweithio ar hyn o bryd?

- Dechrau'n Deg - cynnydd mewn niferoedd
- Rhieni yn dewis ysgolion bach – pobl eisiau symud i Fochdre oherwydd yr ysgolion
- Ardal â nifer o bobl ar fudd-dal tai – nifer o deuluoedd rhiant sengl/teuluoedd incwm isel ble mae cludiant yn broblem felly angen ysgol leol
- Plant wedi setlo a chanlyniadau'r ysgol yn dda
- Edrychwch ar nifer y pramiau a'r merched beichiog ar y buarth!
- Ysgol gwobr bwyta'n iach – rhan fwyaf o blant yn cael cinio ysgol
- Dechrau'n deg hefyd yn addysgu rhieni ynghylch ysgolion lleol
- Dwy ysgol fro
- Cysylltiadau a pherthynas agos rhwng yr ysgolion (dilyniant, trosglwyddo, rhannu TG)
- Cyrff llywodraethol yn rhyngweithio
- Mae gan y ddwy ysgol 'Buddsoddwyr mewn Pobl'
- Datblygiad staff yn dda
- Ysgol fabanod yng nghanol y pentref
- Heb risiau – addas i ddefnyddwyr cadair olwyn/pramiau
- Delfrydol ar gyfer y cyfnod sylfaen (pob drws yn agor at ardal awyr agored wedi ei orchuddio)
- £1,000 o adnoddau awyr agored (newydd ei ail-wynebu)
- Economaidd o ran gwresogi – llawer o haul sy'n rhoi amgylchedd iach i'r plant
- Llawer o le – defnyddir trwy gydol y dydd ar gyfer y cyfnod sylfaen newydd

- Gan fod y cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys holl blant 3-7 oed gall yr ysgol gyfan fod yn ymroddedig i ddatblygiad y CS felly mae newid ar ddiwedd blwyddyn 2 (ysgol a'r cwricwlwm) yn cyd-fynd â'r cwricwlwm
- Cynllun Dechrau'n Deg yn cael effaith enfawr ar gynyddu niferoedd
- Mae cyrhaeddiad academaidd mewn ysgol fach yn aml yn well nag mewn ysgolion mawr
- "Gofal hollgynhwysol" – gwerth ardderchog am arian
- Datganiad gan Estyn, 24 Chwefror 2006, Mae'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Estyn wedi datgelu fod "Plant yng Nghymru yn cyflawni cystal canlyniadau mewn ysgolion cynradd bach (llai na 90 disgybl) ag y maent mewn ysgolion mwy. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn dda ar y cyfan. Yn yr ysgolion llai mae'r berthynas agos rhwng ysgolion a'r rhieni yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol.

Beth ellir ei wella?

- Addysg i rieni yn y dalgylch
- Anfon eu plant i'r ysgol leol
- Cystennin – codi safon llawr cyntaf i'r un safon a fyny'r grisiau
- Cystennin – man chwarae awyr agored
- Safle diogel yn Cystennin (ffensio etc)
- Problemau traffig yng Nghystennin – yn arbennig mewn tywydd drwg
- Cadwch addysg ym Mochdre!
- Mwy o staff – mwy o arian os gwelwch yn dda!
- Adolygu dewis rhieni – yn gyfreithiol (meddwl am eich ôl troed carbon)
- Mwy o sylw cadarnhaol gan yr adran addysg
- Mwy o dai newydd – byddai'r llaethdy wedi bod yn safle delfrydol
- Dim – rhieni yn hapus, mae'r ddwy ysgol wedi cael arolygon da gan Estyn
- Uwchraddio TG i'r babanod
- Nid yw Cystennin yn addas i fabanod – mynediad i gerddwyr a cherbydau
- Man chwarae a chwaraeon Cystennin - ar lethr a lefel rhanedig - nid i fabanod
- Penderfynwyd hyn gan Gyngor Sir Clwyd 20 mlynedd yn ôl!
- Rhaid cadw'r ysgol ym Mochdre
- Gellir defnyddio capasiti'r ysgol ar gyfer Conway Road (anaddas) a dim pennaeth parhaol
- Gellir gwella mynediad i Cystennin

4. Sesiwn Cwestiwn ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, C= Sylw)

S: Pryder y bydd y ddwy ysgol yn cau. Ni fydd rhieni yn anfon eu plant i'r ysgolion hyn os ydynt yn meddwl y byddant yn cau.

A: Fe fydd ysgol ym Mochdre yn y dyfodol.

C: Sut fydd pethau'n newid ym Mochdre? Os na fydd ysgolion yn cau ac nad oes safle i gyfuno, beth fydd yn digwydd?

A: Efallai bod darn o dir mae'r cyngor yn berchen arno fel y gall y ddwy ysgol gyfuno.

S: Nid oes tir ar gael ynghanol Mochdre.

A: Pan gyhoeddir y strategaeth ddrafft, cewch yr ateb i ardal Mochdre. Bydd ymgynghoriad pellach gyda phob ysgol ar yr ateb a gynigir iddynt. Pe canfuwyd safle ym Mochdre ble gellid cyfuno'r ddwy ysgol, a fyddai gennych ddiddordeb yn hyn?

C: A oes gennych yr arian i wneud hyn?

A: Daw arian o ariannu 21 Ganrif.
S: Does gen i ddim eisiau ysgol babanod ac iau cymysg.
A: Cofiwch fod yn rhaid i ni ystyried plant eich plant ac nid yw rhai ysgolion yn addas i'r pwrpas.
S: Credaf fod y ffigyrau yn y ddogfen yn bwysig iawn a dylid eu cadarnhau.

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad, cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

<u>Wal syniadau / bryderon</u>

- Mochdre yn ardal ratach ar y farchnad dai – nifer o brynwyr tro cyntaf yn bwydo i'r ysgol
- A fydd swyddi'n ddiogel?
- Mae'r gost fesul disgybl ond ychydig yn uwch na'r cyfartaledd – a chredaf y bydd nifer y disgyblion yn codi i lefelu hyn
- Y cyfnod sylfaen angen mwy o arwynebedd llawr
- Mae pobl ar restr dai'r cyngor yn dewis Mochdre yn gyntaf oherwydd yr ysgolion
- Tir yng Nghystennin yn anaddas (yn fy marn i) ar gyfer plant ifanc
- Mae'r ystadegau rhagolwg ond yn adlewyrchu'r dyfodol agos
- Gofal hollgynhwysol yn gweithio yn yr ysgol – helpu rhieni i ddatblygu e.e. prifysgol – helpu'r ardal
- Dechrau'n Deg ar gael i bawb am ddim – byddai gennym fwy o ddisgyblion
- Mochdre yn ardal a nifer ar fudd-dal tai – elwa o ysgol leol
- Rhai plant wedi eu tynnu o ysgol fabanod y pentref a byddant yn dychwelyd i Ysgol Cystennin a yw'r rhain yn y rhifau?
- Bydd Dechrau'n Deg yn cynyddu niferoedd dros y blynyddoedd nesaf
- Cau Ysgol Conway Road
- Rhieni yn poeni mwy am safon yr addysgu nag oed yr adeilad
- Gellir anfon plant o Ysgol Conwy Road i Bab? Mochdre
- Byddai llai o staff yn Ffordd Dinerth yn rhyddhau arian i ysgolion